# SL(6)005 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a Diben

Bydd Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021 (“y Rheoliadau”) yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 (“y Rheoliadau”) sy’n gymwys mewn perthynas â Chymru.

Mae’r Rheoliadau yn darparu ar gyfer codi ffioedd am wiriadau iechyd planhigion ar nwyddau a fewnforir i Gymru o Aelod-wladwriaethau’r UE, y Swistir a Liechtenstein. Gwneir gwiriadau iechyd planhigion (dogfennol, adnabod a ffisegol) ar lwythi rheoledig a fewnforir i Gymru o wledydd y tu allan i’r UE. Mae’r nwyddau risg uchaf yn destun 100% gwiriadau dogfennol, adnabod a ffisegol. Mae lefel y gwiriadau adnabod a ffisegol ar nwyddau eraill yn seiliedig ar risg.

Codir ffioedd am wiriadau o dan Reoliadau 2018. Ar gyfer llwythi sy’n gymwys ar gyfer lefelau is o wiriadau ffisegol, codir ffi wedi’i gostwng yn gyfrannol ar bob llwyth a fewnforir.

O 1 Ionawr 2021 mae gwiriadau iechyd planhigion hefyd yn cael eu cynnal ar lwythi o blanhigion rheoledig, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill sy’n cael eu mewnforio o aelod-wladwriaethau’r UE, y Swistir a Liechtenstein. O dan ddull graddol, bydd nwyddau risg uwch yn destun gwiriadau dogfennol, adnabod a ffisegol o fis Ionawr. Bydd gwiriadau dogfennol, adnabod a ffisegol ar blanhigion rheoledig eraill, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill yn cael eu cyflwyno’n raddol yn ystod 2021 a 2022.

Yn unol â’r dull safonol y gellir adennill cost lawn darparu gwasanaeth gan fusnesau sy’n defnyddio'r gwasanaethau hyn, mae’r Rheoliadau hyn yn cymhwyso ffioedd am wiriadau ar fewnforion planhigion rheoledig, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o Aelod-wladwriaethau’r UE, y Swistir a Liechtenstein. Er mwyn rhoi amser i fusnesau addasu i’r trefniadau newydd, ni fydd y ffioedd ar gyfer gwiriadau dogfennol, adnabod a ffisegol ar y nwyddau risg uwch yn cael eu cymhwyso tan fis Mehefin 2021. Bydd ffioedd ar gyfer gwiriadau adnabod a ffisegol ar y nwyddau rheoledig sy’n weddill o Aelod-wladwriaethau’r UE, y Swistir a Liechtenstein yn cael eu cymhwyso o 1 Mawrth 2022.

O dan Reoliadau 2018 ceir ffi gyfunol sengl am wiriad dogfennol ac adnabod, gan adlewyrchu’r ffaith bod y ddau wiriad hynny wedi’u cynnal o’r blaen ar 100% ar bob llwyth. O dan y rheolau cyfredol, mae amlder y gwiriad adnabod yn gysylltiedig ag amlder y gwiriad ffisegol; felly bydd unrhyw ostyngiad yn lefel yr arolygiad ffisegol hefyd yn berthnasol i’r gwiriad adnabod. Mae’r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer ffi ar wahân am wiriadau dogfennol ac adnabod ar gyfer pob llwyth.

Nid yw’r Rheoliadau hyn yn gwneud unrhyw newidiadau eraill i'r ffioedd presennol ar gyfer gwiriadau ar lwythi a fewnforir o wledydd y tu allan i’r UE ac eithrio’r Swistir a Liechtenstein.

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd newidiadau tebyg yn cael eu cyflwyno gan lywodraeth y DU a llywodraeth yr Alban.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau i ddarparu esemptiad rhag talu ffioedd am wasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio o ran nwyddau sy'n symud o Gymru i fusnes neu unigolyn breifat yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r esemptiad hefyd yn berthnasol i symud nwyddau gan unigolion preifat yn eu bagiau teithwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw masnach rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon yn destun costau iechyd planhigion ychwanegol.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3 (i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir uchod.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor Dros Dro yn nodi ac yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ymgynghori mewn perthynas â chynnwys mwyafrif y Rheoliadau. Fodd bynnag, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Stakeholders have not been consulted regarding the exemption from the payment of fees for pre-export and export certification services where goods are moving from Wales to a business or private individual in Northern Ireland, as these amendments are considered technical operability amendments and provide an exemption to the payment of fees."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.